# Cefnogi’r gwaith o hyfforddi ceffylau i weithio mewn harnais

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chefnogi'r gwaith o hyfforddi ceffylau i weithio mewn harnais. Byddwch yn gallu cefnogi hyfforddwr y ceffyl harnais i hyfforddi ceffylau i weithio mewn harnais, yn cynnwys cyflwyno cymhorthion llais, eitemau harnais, tynnu pwysau a cherbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau neu declynnau amaethyddol i geffylau yn ystod cyfnodau amrywiol hyfforddiant.

Mae'n gofyn am y gallu i drin ceffylau ifanc, dibrofiad, yn ogystal â cheffylau aeddfed sy'n cael eu hyfforddi ar gyfer rôl newydd, a gwybodaeth a dealltwriaeth o ymddygiad ceffyl a'r gallu i adnabod arwyddion o straen yn y ceffyl.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. gweithio gydag eraill i gefnogi'r gwaith o weithredu rhaglen wedi ei dylunio i hyfforddi ceffylau unigol i weithio mewn harnais
3. monitro adweithiau ceffylau unigol i bob cyfnod o hyfforddiant
4. adrodd ar effeithiolrwydd pob cyfnod o hyfforddiant, ac adweithiau ceffylau unigol
5. cyfrannu at adolygu'r rhaglen a'r dulliau hyfforddiant
6. gweithredu diwygiadau cytûn i'r rhaglen hyfforddi ac ailwerthuso'r rhaglen/dulliau hyfforddi diwygiedig
7. cyflwyno cymhorthion llais, synau, eitemau harnais, tynnu pwysau, a cherbydau neu declynnau sy'n cael eu tynnu gan geffyl i'r ceffyl newydd yn yr hyfforddiant
8. monitro iechyd a lles ceffylau, a nodi arwyddion o straen yn ystod hyfforddiant
9. cymryd camau priodol i ddileu neu leihau straen
10. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cefnogi'r gwaith o hyfforddi ceffylau i weithio mewn harnais
3. egwyddorion hyfforddi ceffylau i weithio mewn harnais
4. ymddygiad ceffylau a sut y mae hyn yn berthnasol i'r rhaglen hyfforddi
5. dulliau hyfforddiant gwaraidd ac effeithiol
6. sut i adnabod arwyddion o straen mewn ceffylau yn ystod hyfforddiant
7. sut i asesu effeithiolrwydd pob cyfnod o hyfforddiant
8. sut i adrodd ar effeithiolrwydd ac adweithiau ceffylau unigol i bob cyfnod o hyfforddiant,
9. sut i wneud cyfraniad effeithiol i drafodaethau yn ymwneud â diwygio cynlluniau hyfforddiant
10. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Cefnogi'r gwaith o hyfforddi ceffylau i weithio mewn harnais

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEa339 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; harnais; hyfforddiant |